

PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 17 Medi 2015 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Is-gadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), Meirick Davies, Martyn Holland, Pat Jones, Dewi Owens ac Arwel Roberts

Arsylwr: Y Cynghorydd Alice Jones

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (NS), Cydlynnydd Craffu (RE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Merfyn Parry, Pete Prendergast a/ac Bill Tasker

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones gysylltiad personol gydag eitemau 4, 5 a 6.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, cytunodd pawb a oedd yn bresennol y dylid amrywio trefn yr eitemau ar y Rhaglen i gynorthwyo cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan fod dau ohonynt â chyfarfodydd eraill yn y prynhawn oedd wedi'u trefnu'n flaenorol.

4 CYNLLUN TAIR BLYNEDD BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR 2015-2018

Cyflwynodd Mr Geoff Lang, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cynllun Tair Blynedd 2015-18.

Eglurodd y Cyfarwyddwr i'r aelodau y cafwyd trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru (LIC) cyn gosod y Bwrdd Iechyd mewn Mesurau Arbennig. Yn ystod y trafodaethau cytunwyd na fyddai'r Bwrdd yn llunio cynllun tair blynedd i ddechrau o 2015. Byddai'r cynllun tair blynedd yn dechrau o flwyddyn ariannol 2016/17. Ar gyfer y flwyddyn gyfredol, byddai'r Bwrdd, fel rhan o'i gynllun gwella, yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Ailgysylltu â'r cyhoedd, staff a chyfathrebu
- Gwella lechyd Meddwl
- Obstetreg a Gynaecoleg
- Llywodraethu Corfforaethol, a
- Gwasanaethau Meddyg Teulu y tu hwnt i oriau arferol.

Er mwyn gwella cyfathrebu ac ailgysylltu â staff a budd-ddeiliaid, mae'r Bwrdd wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau, yn ystod misoedd yr haf. Roedd y digwyddiadau yn cynnwys y rhai a drefnwyd gan y Bwrdd a'r sioeau a ffeiriau eraill y mae'r cyhoedd yn ymweld â nhw yn rheolaidd. Pwrpas mynychu digwyddiadau oedd ceisio ailgysylltu â phobl a chasglu eu safbwyntiau ynglŷn â'r Gwasanaeth lechyd yng ngogledd Cymru o ran yr hyn sydd wedi bod yn gweithio'n dda a pha feysydd sydd angen eu gwella. Byddai'r adborth o'r digwyddiadau'n cael ei ddadansoddi a byddai'r prif gasgliadau a chanfyddiadau'n cael eu darparu mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol i benderfynu â ydynt yn cyd-fynd â safbwynt y cyhoedd yn gyffredinol, cyn eu defnyddio i gynllunio newidiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Roedd yr ymgynghoriad ynglŷn â newidiadau dros dro i'r gwasanaethau obstetreg a gynaecoleg yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Byddai ymgynghoriadau pellach ynglŷn â'r Gwasanaeth lechyd Meddwl a'r Gwasanaeth Meddyg Teulu y tu hwnt i oriau arferol hefyd yn cael eu cynnal yn fuan.

Hysbysodd cynrychiolwyr BIPBC yr aelodau o'r canlynol:

- Roedd y Bwrdd yn awr yn y broses o ddatblygu ei gynllun ariannol a blaenoriaethau ar gyfer 2016/17.
- Roedd rhan o'r gwaith cynllunio yn cynnwys gweithio gyda lechyd Cyhoeddus Cymru ar fapio heriau iechyd a sut i wella iechyd yn gyffredinol, gan gynnwys y gwaith sydd ei angen yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y rhanbarth. Byddai gwaith hefyd yn cael ei gyflawni gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gydymffurfio â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.
- Roedd cyfarfod y Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer yr ail wythnos ym mis Hydref i drafod sut i gydbwyso eu blaenoriaethau nhw a blaenoriaethau'r gymuned.
- Roedd yn rhaid i'r Bwrdd gwblhau a chytuno ar ei Gynllun erbyn mis Ionawr 2016 er mwyn ei alluogi i ddechrau trafodaethau ynglŷn â blaenoriaethau gyda LIC rhwng mis Ionawr a Mawrth 2016.
- Ar lefel leol yng Nghonwy a Sir Ddinbych, roeddent yn awyddus i ailgysylltu â chymunedau yn y ddwy sir i drafod blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol y Bwrdd a'r gymuned ar lefel leol. Er mwyn hwyluso hyn, roedd nifer o weithdai i'w trefnu ar gyfer mis Hydref 2015.
- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr ei bod yn hanfodol llunio deialog dwy ffordd rhwng y Gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu diwallu.

Cadwyd trafodaeth ac ymatebodd Swyddogion BIPBC i gwestiynau'r Aelodau fel a ganlyn:

- Cadarnhaodd y byddai ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd yn brosiect mawr a chymhleth a oedd wedi achosi anghyfleustra i gleifion, staff ac ymwelwyr. Er mai'r nod wreiddiol oedd gwaredu asbestos o'r adeilad, roedd y Bwrdd wedi defnyddio'r prosiect fel cyfle i uwchraddio deunydd yr ysbyty a'i arfogi â'r cyfleusterau meddygol diweddaraf, h.y. wardiau o'r radd flaenaf, theatrau, Adran Argyfwng a Gofal Brys, Uned Gofal Critigol ac ati. Byddai buddion y rhaglen ailddatblygu yn haws eu gweld wrth agor y brif fynedfa newydd ym mis Hydref a phan agorwyd rhai o'r wardiau newydd ym mis Tachwedd. Roedd staff sy'n gweithio yn yr ardaloedd newydd wedi darparu adborth hynod o gadarnhaol ynglŷn â'r newidiadau.
- Cytunodd bod achosion o *Glostridium Difficile* (C-diff) wedi bod yn brofiad anodd iawn ar gyfer y Bwrdd a'i staff. Nid oedd gwaith ailddatblygu yn Ysbyty Glan Clwyd wedi cynorthwyo i reoli sefyllfa'r haint. Roedd llawer iawn o waith wedi'i gyflawni ers yr achosion o'r haint o ran rheoli'r haint a chroeshalogi, ond byddai angen mwy o waith er mwyn iddo fod cystal â gweddill Cymru. Byddai agor y wardiau newydd, pob un ohonynt ag wyth ystafell sengl i gynorthwyo i wahanu'r cleifion, yn fuddiol, fodd bynnag, y nod pennaf fyddai bod cystal, os nad yn well, na'r gorau yn Lloegr. Gyda'r nod o gyflawni hyn, byddai'r Athro Duerden o Ganolfan Genedlaethol Rheoli ac Atal Haint yn dychwelyd i Ysbyty Glan Clwyd o fewn y 3 i 6 mis nesaf i fonitro cynnydd a chynhyrchu ail adroddiad gwerthuso.
- Cadarnhaodd bod safonau cenedlaethol ar gyfer glanhau ysbytai a bod yn rhaid diwallu'r safonau hyn.
- Cynghorodd bod anawsterau o ran recriwtio staff â chymwysterau addas wedi bod yn achos pryder ar draws y GIG cyfan ac nid yw'n sefyllfa unigryw yng Ngogledd Cymru. Serch hynny, bu anawsterau ychwanegol i recriwtio staff i ddisgyblaethau meddygol penodol, neu i raddfeydd penodol, yn enwedig y rhai lle bo'r Ddeoniaeth wedi tynnu statws "hyfforddiant" yr ysbyty yn ei ôl. Roedd polisïau Llywodraeth y DU mewn perthynas â rheoliadau mewn fudo a theithebau wedi cymhlethu problemau ymhellach. Roedd y Bwrdd, fodd bynnag, yn gweithio'n rhagweithiol gydag Ysgolion Meddygol Lerpwl a Manceinion gyda'r nod o'u cael i leoli myfyrwyr mewn ysbytai yng Ngogledd Cymru yn ystod eu cyfnod hyfforddi. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith y cydnabyddir yn eang bod myfyrwyr meddygol yn aml yn dewis aros yn eu hysbytai hyfforddi ar ôl cwblhau eu hyfforddiant.
- Bu prinder nyrsys mewn nifer o ardaloedd yn y DU oherwydd bod nifer annigonol o nyrsys wedi'u hyfforddi yn y blynyddoedd diweddar. Er bod nifer y lleoedd ar gyfer myfyrwyr nyrsio mewn prifysgolion wedi cynyddu, byddai'n cymryd cwpl o flynyddoedd i'r nyrsys gwblhau eu hyfforddiant a bod yn barod i weithio yn yr ysbytai. Yn ddiweddar, roedd nifer o nyrsys wedi'u recriwtio o du allan i'r DU, yn bennaf Iwerddon a Sbaen. Er bod safonau clir yn debyg rhwng cymwysterau nyrsio mewn gwledydd gwahanol, roedd y gweithdrefnau a'r arferion nyrsio yn y gwledydd yn amrywio. Felly, byddai'r nyrsys o'r gwledydd hynny'n dechrau hyfforddiant cyflwyno chwe mis i ddysgu am arferion a gweithdrefnau'r GIG.
- Eglurodd rôl y Ddeoniaeth a'i safbwynt ar nifer yr ysbytai hyfforddi yng Ngogledd Cymru.
- Cytunodd bod angen codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i ddefnydd ar draws y Deoniaethau, gan gynnwys Lerpwl a Manceinion. Roedd cyfle

hefyd i ddefnyddio'r galw am staff meddygol sy'n siarad Cymraeg fel modd o ddenu myfyrwyr meddygol o Ogledd Cymru yn ôl i'r ardal i ymarfer

- Roedd gwaith ar y gweill i adolygu'r math o lety ac argaeledd llety ar gyfer staff meddygol iau a oedd yn symud i'r ysbytai cyffredinol i weithio, gan fod y llety sy'n cael ei gynnig hefyd yn ffactor a fyddai'n effeithio ar ddewis ysbyty y myfyrwyr meddygol.
- Roedd trafodaethau'n parhau gyda'r bwriad o gael Ysgol Feddygaeth yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol. Roedd myfyrwyr yn awr yn gallu astudio ar gyfer Gradd Baglor mewn Gwyddoniaeth Feddygol ym Mangor, y gellir ei ddefnyddio i gael mynediad i gwrs hyfforddiant meddygol.
- Cadarnhaodd bod Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd i ystyried yr holl achosion honedig o gam-drin ar Ward Tawelfan. Roedd nifer o aelodau o staff wedi'u gwahardd ar hyn o bryd nes ceir canlyniadau'r archwiliadau ac, os yn briodol, byddai camau disgyblu priodol yn cael eu cymryd.
- Yn y gorffennol roedd y Gwasanaeth Iechyd wedi gweithredu ar fodel "salwch/ymyrraeth", y dyhead ar gyfer y dyfodol yw gweithio ar fodel "rhagweithiol/lles". Byddai hyn yn golygu bod Iechyd yn gweithio gyda sefydliadau partner i fynd i'r afael â materion megis amddifadedd, adfywio a'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) gyda'r diben o wella canlyniadau Iechyd a lles trwy gydol oes unigolyn. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu drwy'r prosiect TRAC
- Hysbysodd yr Aelodau bod gwaith ar y gweill trwy Grŵp LIC ac Arweinwyr y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ynglŷn â sut y gallai'r Gwasanaeth Iechyd wella'r dulliau o gynllunio gwasanaeth i ddelio â newidiadau mewn poblogaeth a'r galw ar ôl mabwysiadu CDLIau Awdurdod Lleol ar draws Gogledd Cymru. Er bod twf y boblogaeth yn her ar draws holl sectorau'r gwasanaeth Iechyd, disgwylir mai'r her fwyaf fyddai i'r sector gofal sylfaenol gan nad oedd ganddynt gapasiti dros ben i ddelio â thwf mawr yn y boblogaeth.

Ar ddiwedd y drafodaeth dechreuodd Swyddogion BIPBC archwilio'r materion a ganlyn ac adrodd yn ôl i'r aelodau:

- Pryderon a godwyd ynglŷn â niferoedd staffio yn yr Uned Gofal Critigol newydd ac a oedd digon o staff cymwys ar gael yn yr uned trwy gydol yr amser
- Nifer y wardiau a'r manau cymysg yn Ysbyty Glan Clwyd a pholisi'r Bwrdd ar wardiau a manau cymysg (ar wahân i'r Unedau Gofal Dwys a Gofal Critigol ac ar y wardiau Meddygol Difrifol)
- Polisi'r Bwrdd ynglŷn â gwisgo'r wisg pan nad ar ddyletswydd (a nifer y staff a ddisgyblwyd am beidio â chydymffurfio â'r Polisi). Cynghorwyd aelodau'r pwyllgor fod gan aelodau'r cyhoedd hawl i roi gwybod am staff sy'n cael eu gweld yn gwisgo eu gwisgoedd pan nad ydynt ar ddyletswydd.
- Gwaith ICC ynglŷn ag anghydraddoldebau Iechyd
- Pryderon a godwyd ynghylch rhai meddygon ymgynghorol nad ydynt yn dechrau eu clinigau ar amser ac, o ganlyniad, nid yw eu cleifion yn derbyn y dyraniad amser llawn ar gyfer eu hapwyntiad, ac
- Adrodd y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor i'r Bwrdd Iechyd maes o law.

Mynegodd y Pwyllgor eu gwerthfawrogiad i Gyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth am fod yn bresennol a:

PENDERFYNWYD, yn amodol ar ddarparu'r wybodaeth uchod, bod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau'n derbyn yr adroddiad cynnydd.

5 NEWIDIADAU DROS DRO I WASANAETHAU MERCHED A MAMOLAETH YNG NGOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd Gyfarwyddwr Cynorthwyol, Strategaeth ac Ymgysylltu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Sally Baxter, y newidiadau dros dro i Wasanaethau Merched a Mamolaeth yng Ngogledd Cymru. 'Dweud eich Dweud'

Roedd copi o'r fersiwn gryno wedi'i ddsbarthu i'r aelodau gyda phapurau'r pwyllgor. Yn ei chyflwyniad, pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol bod y newidiadau arfaethedig yn fesur dros dro nes y gellir sefydlogi'r sefyllfa staffio. Roedd y cynigion yn ymwneud â newidiadau dros dro i leoliad gwasanaethau obstetreg, gynaeceleg a llawfeddygaeth y fron dan arweiniad meddyg ymgynghorol. Byddai gwasanaethau bydwragedd a newydd-anedig yn parhau ar y tri safle. Cydnabu'r Bwrdd bod y cynigion yn achosi pryder mawr i breswylwyr ar draws y rhanbarth, ond yn teimlo bod yn rhaid gwneud rhywbeth dros dro i leihau'r risg i famau beichiog a'u babanod. Yr opsiwn a ffeirir gan y Bwrdd oedd Opsiwn 4, newidiadau dros dro i wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, gan eu bod yn credu mai dyma'r opsiwn â'r effaith lleiaf sylweddol ar deithio ac y gellir rhoi gwasanaethau eraill ar waith yn gyflym. Roedd y Bwrdd yn agored i awgrymiadau, ac roedd y 4 opsiwn yn destun ymgynghoriad tan 5 Hydref 2015. Cynghorwyd yr Aelodau y gallant ymateb fel unigolion ac fel Pwyllgor i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd i annog trigolion yn eu wardiau i ymateb.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r holl opsiynau ac ymatebodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol i ymholiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

- Hysbysu'r Aelodau bod digwyddiad ymgynghori cyhoeddus wedi'i drefnu ar gyfer 2 Hydref yn Ninbych, gyda sesiynau'n cael eu cynnal am 2.00pm a 5.30pm. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol bod yr Aelodau'n tynnu sylw'r preswylwyr at hyn.
- Roedd datblygiadau meddygol a thechnolegol wedi symud ymlaen yn sylweddol ers pan adeiladwyd y tri ysbyty cyffredinol rhanbarthol, ynghyd â disgwyliadau'r Ddeoniaeth a disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth iechyd. Roedd mwy o bwyslais ar ganolfannau meddygol arbenigol â rhagoriaeth a symud cleifion o amgylchedd yr ysbyty cyn gynted â'i bod yn ddiogel gwneud hynny.
- Darparodd sicrwydd i'r Aelodau y byddai gan y Bwrdd fesurau ar waith i symud mamau a oedd angen gofal dan arweiniad meddyg ymgynghorol i'r safle priodol cyn gynted â phosibl – os oedd yn enedigaeth a gynlluniwyd ymlaen llaw dan arweiniad meddyg ymgynghorol, yna bydd trefniadau'n cael eu llunio ymlaen llaw iddynt allu mynd i'w safle a ffeirir. Pe bai yn sefyllfa brys, byddai tîm meddygol cyffredinol wrth law i sefydlogi'r claf tra gwneir

trefniadau gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans i'w symud i'r safle agosaf sydd dan arweiniad meddyg ymgynghorol.

- Nifer y genedigaethau cesaraidd brys yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn oedd tua 1% o gyfanswm yr holl enedigaethau.
- Ail- gadarnhaodd bod y cynigion yn fesur dros dro ac yn gysylltiedig â datblygu Canolfan Ofal Dwys Newydd-anedig Isranbarthol yn Ysbyty Glan Clwyd fel canolfan ragoriaeth ar gyfer babanod gydag anghenion sy'n fwy cymhleth - byddai'r uned hon dan arweiniad meddyg ymgynghorol.
- Pe bai'n dod i'r amlwg nad oes modd datrys y problemau staffio a bod angen ymestyn cyfnod y newidiadau dros dro, byddai'n rhaid i'r Bwrdd ail-ymgyngori ar y cynigion gan nad oes modd eu hymestyn am gyfnod amhenodol.
- Nododd bod marwolaethau o bryd i'w gilydd hyd yn oed mewn unedau mamolaeth dan arweiniad meddyg ymgynghorol.
- Cadarnhaodd nad oedd prinder bydwragedd yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd, a bod 27 o fydwagedd wedi'u recriwtio'n ddiweddar.
- Cadarnhaodd i'r aelodau nad oedd y newidiadau dros dro yn ymarfer arbed costau. Roeddent yn cael eu cynnig fel mesur i fynd i'r afael â phroblemau o ran lefelau staffio a allai beri risg i fenywod ac i'r Bwrdd. Ar ddiwedd yr ymarfer ymgynghori, byddai gweithredu unrhyw un o'r opsiynau yn golygu goblygiadau o ran costau.
- Roedd y gwasanaeth presennol yn ddibynnol iawn ar feddygon ymgynghorol locwm, roedd hyn yn anfoddfaol ac yn ddrud iawn.
- Er y cadarnhaodd nad oedd gan Ysbyty Gwynedd na Wrecsam Maelor lety i rieni tebyg i Dŷ Croeso Dawn Elizabeth House ar y safle, byddai trefniadau'n cael eu gweithredu i ddarparu llety i'r rhieni ger safle'r ysbyty os bydd angen.
- Cadarnhaodd y byddai crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan y Bwrdd maes o law, a
- Byddai'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod presennol yn cael eu hadrodd yn ôl fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Cyn dod â'r drafodaeth i ben, cytunodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y byddai'n darparu'r wybodaeth ganlynol i'r Aelodau:

- Dolen i'r ddogfen ymgynghori lawn
- Nifer y genedigaethau problematig / cymhleth ym mhob ysbyty cyffredinol rhanbarthol yn ystod y 3 blynedd diwethaf.
- Nifer y bydwragedd a adawodd gyflogaeth y Bwrdd yn ystod y tair blynedd diwethaf ynghyd â nifer y bydwragedd a recriwtiwyd yn ystod y cyfnod hwnnw (gan gynnwys cyfanswm y bydwragedd yn eu swyddi yn ystod y blynyddoedd dan sylw).

Anogwyd yr aelodau i anfon unrhyw gwestiynau neu sylwadau ychwanegol y maent yn dymuno eu cyflwyno fel rhan o'r ymarfer ymgynghori at y Cydlynnydd Archwilio a fyddai wedyn yn eu hanfon at y Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Strategaeth ac Ymgysylltu.

Mynegodd y Pwyllgor eu diolch i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth ac Ymgysylltu am ddod i'r cyfarfod, a:

PENDERFYNWYD, yn amodol ar ddarparu'r wybodaeth uchod, nodi'r cynigion a gyflwynwyd a gofyn bod preswylwyr Sir Ddinbych yn derbyn gwasanaeth obstetreg a gynaeoleg dan arweiniad diogel meddyg ymgynghorol ar safle mor agos â phosibl at eu cartrefi yn yr hirdymor, o fewn ffin y sir os oes modd, oni bai eu bod yn agosach at uned sydd tu allan i'r sir.

Ar y pwynt hwn (11.15 a.m.) cafwyd toriad am 15 munud

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.30am.

6 BIPBC YNG NGHONWY A SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Gyfarwyddwr Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych, Bethan Jones, gyflwyniad BIPBC yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Croesawyd y Cyfarwyddwr Ardal i'r cyfarfod ac aeth ymlaen i roi cyflwyniad ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn i ddatblygu strwythur ardal is-ranbarthol ar gyfer gwaith y Bwrdd Iechyd yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Eglurodd y Cyfarwyddwr Ardal sut y byddai'r strwythur newydd yn ymgysylltu a rhyngweithio gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid. Yn ystod ei chyflwyniad rhoddodd y Cyfarwyddwr Ardal drosolwg o'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Strwythur Ardal a oedd yn gweithredu oddi tano. Amlinellodd y Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol sydd ar gael iddynt, egwyddorion gweithredu'r Strwythur Ardal a'u blaenoriaethau allweddol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau:

- Cadarnhaodd bod y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu tri strwythur "ardal newydd" ar gyfer Gogledd Cymru, yn seiliedig yn ardaloedd awdurdodau lleol:
 - Ynys Môn a Gwynedd
 - Conwy a Sir Ddinbych, a
 - Sir y Fflint a Wrecsam

Y safle ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych oedd Ysbyty Llandudno.

- Cytunodd bod cyfathrebu effeithiol ac amserol yn allweddol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd ac i ddatblygu ymddiriedaeth a hyder ar lefel uchel ymhlith y trigolion. Roedd angen gwella'r diffygion o ran cyfathrebu effeithiol ac amserol rhwng personél y gwasanaeth iechyd gan ei fod yn peri risg i'r Bwrdd, yn achosi oedi gormodol yn nhriniaethau cleifion ar adegau ac yn achosi costau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth iechyd.
- Cadarnhaodd y byddai cryn dipyn o waith yn cael ei gyflawni mewn perthynas â Gwasanaeth y Tu Hwnt i Oriau Arferol ar draws Gogledd Cymru. Roedd pryderon bod cleifion sy'n methu â chael apwyntiadau gyda'u Meddygon Teulu eu hunain yn defnyddio'r Gwasanaeth y Tu Hwnt i Oriau Arferol ar y penwythnosau.
- Cadarnhaodd bod cytundebau Meddygon Teulu yn nodi nad oedd yn ofynnol iddynt weithio ar benwythnosau ar hyn o bryd.

- Hysbysodd y Pwyllgor bod angen hyrwyddo argaeledd Unedau Mân Anafiadau yn yr ysbytai cymunedol i breswylwyr, ynghyd â'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig er mwyn lleihau'r pwysau ar Adrannau Argyfwng a Damweiniau yr ysbytai cyffredinol. Awgrymodd yr Aelodau y gallai fod yn fanteisiol pe bai enw'r Unedau Mân Anafiadau'n newid i Adrannau Mân Anafiadau ac Anhwylderau
- Cadarnhaodd bod angen cynorthwyo pobl i ddychwelyd i'w cartrefi yn gynt ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, yn enwedig pan mai dim ond mân addasiadau sydd eu hangen e.e. gosod rheiliau ac ati. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu trwy'r prosiect "Beth sy'n bwysig".
- Cadarnhaodd bod enghreifftiau o ymarfer da a drwg o ran cynlluniau gadael yr ysbyty ynghyd â darparu offer arbenigol.
- Cadarnhaodd yn y blynyddoedd diwethaf, bod gofal sylfaenol wedi'i drefnu fesul clwstwr gyda'r nod o gynyddu gwydnwch, yn enwedig mewn meysydd megis TG a chefnogaeth ar gyfer meddygfeydd ag un meddyg teulu.
- Cydnabod nad oedd materion iechyd meddwl lefel isel wedi cael sylw gan Feddygon Teulu yn flaenorol, roedd hyn wedi arwain at ymyrraeth lefel uwch wedi hynny.
- Cyngorodd bod materion iechyd meddwl yn rhan o'r sector gofal iechyd eilaidd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd y Cyfarwyddwr Ardal o'r farn y dylai ffurfio rhan o'r gwaith "ardal" yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y dystiolaeth y byddai dementia yn ffurfio cyfran fawr o waith y gwasanaeth iechyd lleol yn y dyfodol.
- Agwedd arall a oedd angen ei wella oedd gofal lliniarol a'r angen i wella sgiliau'r sector gofal i ddarparu gofal lliniarol yn hytrach nag achosi gofid diangen i'r claf a'u teulu trwy eu symud i amgylchedd ysbyty cyffredinol i dderbyn gofal diwedd oes.

Cytunodd yr Aelodau â'r mater o ran gofal lliniarol a gofyn i'r Bwrdd ystyried cyflogi ymgynghorydd cymunedol a fferylllydd gyda'r nod o gefnogi teuluoedd ac ati, gyda gofal lliniarol. Gofynnwyd hefyd bod arferion gweithio'n hyblyg yn cael eu harchwilio yn y gwasanaeth iechyd i nodi a oedd rhai ohonynt yn peri risg i gleifion.

Cadarnhaodd Gyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau rôl bwysig y Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl o ran darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cydlynol i bobl sydd angen cymorth i dderbyn y gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir.

Cytunodd Cyfarwyddwr Ardal BIPBC ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych y byddai'n ymchwilio'r ymholiadau canlynol ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau maes o law:

- A oedd unrhyw gynlluniau ar waith i ddefnyddio'r hen glinig plant ger meddygfa Rhuddlan at ddefnydd iechyd, gofal cymdeithasol neu ddefnydd cymunedol.
- Pam nad oedd cleifion sy'n mynychu gwasanaethau Tu Hwnt i Oriau Arferol Morfa Doc yn cael hawl i gasglu presgripsiynau o'r Fferyllfa yn Ysbyty Glan Clwyd ac yn cael eu cynghori i fynychu'r fferyllfa ddyletswydd agosaf i gasglu presgripsiynau.
- A oes modd darparu gwasanaethau fflebotomi o feddygfa meddyg teulu a

- Trefnu dynodi aelod o staff o strwythur Ardal Conwy a Sir Ddinbych i bob Grŵp Ardal Aelodau Cyngor Sir Ddinbych fel pwynt cyswllt ar gyfer aelodau ar faterion y Bwrdd Iechyd ac i fynychu cyfarfodydd y GAA o bryd i'w gilydd i ddarparu manylion ar ddatblygiadau ardal a gwrandao ar safbwyntiau aelodau lleol ar faterion.

Mynegodd y Pwyllgor eu diolch i Gyfarwyddwr Ardal Conwy a Sir Ddinbych am fynychu'r cyfarfod Pwyllgor a'u briffio'n briodol. Felly:

PENDERFYNWYD, yn amodol ar ddarparu'r wybodaeth uchod, ac archwilio'r pwyntiau a godwyd, i dderbyn yr adroddiad.

7 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd Iau 30 Gorffennaf 2015.

Materion yn codi

Tudalen 6, Eitem 6 – Arbedion TCC. Cadarnhaodd y Cyngorydd Arwel Roberts bod pob Cyngor Tref yn cefnogi'r fenter. Byddai gan Gyngor Tref y Rhyl gyllid ar gyfer dim ond 20 o gamerâu. Cadarnhaodd y Cyng. Roberts nad fyddai Cyngor Tref Rhuddlan yn arwyddo cytundeb nes bo holl gamerâu TCC Rhuddlan yn gweithio.

PENDERFYNWYD cymeradwyo a derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf, 2015 fel cofnod cywir.

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

8 Hydref 2015 – Bydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau'n cael ei gynnal yn Neuadd y Dref Llangollen. Cadarnhaodd y Cydlynnydd Archwilio y byddai'n cysylltu â'r Swyddogion i'w hatgoffa bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Llangollen ac nid yn Rhuthun.

Cytunwyd y dylid gohirio gwahodd swyddogion BIPBC yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau tan ar ôl cyfarfod Arbennig y Cyngor gyda BIPBC a fyddai'n cael ei gynnal ar 7 Hydref 2015.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.05pm.